

Cafodd yr ymateb hwn ei gyflwyno i'r ymgynghoriad ar y cyd a gynhelir gan y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a'r [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus](#) fel sail i'w [gwaith craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#)

This response was submitted to the joint consultation held by the [Health and Social Care Committee](#) and the [Public Accounts and Public Administration Committees](#) to inform their [scrutiny of Digital Health and Care Wales](#)

SDHCW 18

Ymateb gan: | Response from: Comisiynydd y Gymraeg | Welsh Language Commissioner





Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
E-bost: SeneddHealth@senedd.wales

23 Medi 2022

Annwyl Gyfaill

Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Diolch i chi am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn goruchwyllo a rheoleiddio trefn safonau'r Gymraeg gan sicrhau cydymffurfiaeth 124 o gyrrff yng Nghymru â'r safonau hyn. Mae fy sylwadau felly yn canolbwyntio yn benodol ar y Gymraeg mewn perthynas â Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth cyrrff yn y maes iechyd a gofal â safonau'r Gymraeg. Mae'r cyrrff hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol er 2016, ac er 2019 pob bwrdd iechyd a chyngor iechyd cymuned yng Nghymru yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Yn sgil Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2021 bydd corff Llais y Dinesydd hefyd yn gweithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Nid yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg; pan y'i sefydlwyd collwyd cyfle i'w ddwyn o dan gyfundrefn y safonau. Byddai gosod safonau ar y corff o'r cychwyn wedi golygu bod dyletswyddau penodol arno fyddai'n golygu bod cysondeb yn y gwasanaethau a'r ddarpariaeth y mae'r cyhoedd yn disgwyl eu derbyn ganddo a'r cyrrff iechyd eraill y cyfeiriwyd atynt uchod.

Mae'n gadarnhaol fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi dewis datblygu [cynllun iaith](#) o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd ymgynghoriad ar y cynllun drafft yn cau ar 30 Medi 2022. Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae modd i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio i ddiffyg cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg gan osod camau gorfodi os yw'n canfod bod diffyg cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiynydd bwerau o'r fath mewn perthynas â chynlluniau iaith ac felly os na fydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



yn gweithredu yn unol â'i gynllun iaith arfaethedig; argymhellion yn unig y gall y Comisiynydd eu cynnig i adfer methiannau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith o dan y cynllun.

Yn sgil y cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru mae bwriad yn [rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru](#) i 'weithredu safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu' fydd yn cynnwys lechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'n destun pryder nad oes amserlen ar gyfer gwneud hyn. Mae angen sicrwydd ynghylch yr amserlen a'r union sefydliadau a ddaw o fewn yr ymrwymiad er mwyn gallu cynllunio a sicrhau bod hawliau yn dod yn weithredol ar y cyfle cyntaf. Gofynnaf felly i'r Pwyllgor achub ar bob cyfle posibl i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer dod â lechyd a Gofal Digidol Cymru o dan y gyfundrefn safonau.

Waeth am y cyfle a gollwyd i ddwyn y corff o dan y safonau fel corff cenedlaethol mae gan lechyd a Gofal Digidol Cymru swyddogaeth bwysig yn hwyluso gweithrediad safonau'r Gymraeg gan gyrff eraill y GIG. Mae ymrwymiad yn y cynllun iaith drafft y bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru 'yn sicrhau bod ein systemau a'n gwasanaethau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu/caffael i gefnogi sefydliadau sy'n defnyddio ein systemau i ddiwallu eu Safonau o dan Fesurau'r Gymraeg'. Er yr ymrwymiad yn y cynllun sy'n destun ymgynghoriad, rwyf eisoes yn ymwybodol o fwy nag un enghraifft o adnoddau sydd wedi'u darparu gan lechyd a Gofal Digidol Cymru sydd ddim yn galluogi byrddau iechyd i gydymffurfio'n llawn â'r safonau disgwylidig gan arwain at yr angen i'r Comisiynydd ymchwilio i'r achosion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- oedi o ran disodli a diweddarau systemau clinigol allweddol (e.e. CANISC a RADIS) sy'n golygu nad oes modd i gyrff iechyd gynhyrchu llythyrau apwyntiadau yn Gymraeg;
- templedi gyda'r Saesneg yn gyntaf yn hytrach na'r Gymraeg;
- problemau gyda hygyrchedd ategion sydd wedi eu cynhyrchu i hwyluso'r gofyniad bod byrddau iechyd yn dangos pa ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg;
- problemau gyda system rheoli cynnwys MURA sy'n golygu bod rhaid i fyrddau iechyd wneud cais i lechyd a Gofal Digidol Cymru newid cynnwys statig diffygiol ar eu gwefannau er mwyn iddynt allu cydymffurfio â'r safonau.

Mae swyddogion y Comisiynydd wedi hysbysu lechyd a Gofal Digidol Cymru o'r enghreifftiau hyn. Rwyf yn awyddus eich bod yn craffu ar sut y mae lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu er mwyn galluogi cyrff iechyd a gofal eraill i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Yn ystod mis Awst 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol 2022-27 sef [Mwy na geiriau](#). Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu ac mae'n nodi pa gyrff sydd yn bennaf atebol am weithredu'r camau gweithredu hynny. Rwyf yn falch fod cydnabyddiaeth yn y cynllun ei bod yn angenrheidiol fod y Gymraeg yn rhan o ddatblygiadau digidol a chasglu data. Fodd bynnag, mae'n



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

bryder na fydd y disgwyliadau sydd ar lechyd a Gofal Digidol Cymru mewn dogfen strategol gan Lywodraeth Cymru ychwaith yn golygu y bydd yn cefnogi'r cyrff y cyfeirir atynt uchod i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn llawn er eu bod yn gorfod gweithredu'r safonau ers yn rhagor na thair blynedd. Er enghraifft, nodir yn Mwy na geiriau yn y tymor byr y bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn bennaf atebol am 'ddefnyddio'n Pecyn Cymorth Technegol Dwyieithog i sicrhau bod y gwasanaethau digidol yr ydym yn eu caffael a/neu'n datblygu yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr dwyieithog lle bo hynny'n bosibl.' Nid yw nodi 'lle bo hynny'n bosibl' yn ddigonol yng nghyd-destun cydymffurfiaeth y cyrff hyn â safonau'r Gymraeg. Nodir yn y tymor canol i hir y bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn bennaf gyfrifol am 'barhau i wella galluoedd Cymraeg systemau digidol cenedlaethol ar gyfer y maes ieuchyd a gofal cymdeithasol, ac yn sicrhau bod apiau sy'n cael eu datblygu – fel Ap GIG Cymru – yn cefnogi gweledigaeth a chamau gweithredu y cynllun hwn.' Eto, nid yw'n ddigonol bod *Mwy na geiriau* yn nodi y bydd y systemau hyn yn Gymraeg yn y tymor canol i hir pan fo'r cyrff ieuchyd a gofal cymdeithasol eisoes yn gweithredu'r safonau ers yn rhagor na thair blynedd.

Hyderaf y bydd y sylwadau hyn gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried cydberthynas lechyd a Gofal Digidol Cymru â chyrrff ieuchyd eraill o safbwynt effaith ei weithgareddau arnynt a'u gallu i gydymffurfio â dyletswyddau o safbwynt y Gymraeg. Mae'n allweddol nad yw gweithgareddau'r corff yn tanseilio amcanion Mesur y Gymraeg a'r disgwyliadau sydd ar gyrff ieuchyd a gofal yn unol â'r Mesur.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price
Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

Copi at: Helen Thomas, Prif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru